



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd- anedig Cymru 2023-24

Fersiwn 1

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English



## Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan y Rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2023 hyd at ddiwedd Mawrth 2024. Mae canlyniadau'n cael eu hadrodd gan fwrdd iechyd lle mae sgrinio wedi'i gynnal. Mae rhagor o fanylion ar gael ar gais.

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru 2023-24  
Dyddiad: Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar Ionawr 2026  
ISBN: 978-1-83766-771-0

## Manylion cyswllt

Is-adran Gwybodeg, Iechyd Cyhoeddus Cymru,  
Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: [screening.information@wales.nhs.uk](mailto:screening.information@wales.nhs.uk)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg heb oedi. We will respond to correspondence in Welsh without delay.

## Datganiad Sicrwydd Ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn newid yn gyson. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddarau'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (wedi'u harchifo). Gallai hyn ymwneud â phryd y nodwyd bod angen sgrinio person; wedi cael canlyniadau sgrinio y mae angen eu cofnodi neu wedi newid statws ac nad oes angen ei sgrinio mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o wahanol ffynonellau gyda lefelau amrywiol o gywirdeb a chyflawnrwydd. Mae'r Is-adran Sgrinio yn gwirio data am gywirdeb trwy gymharu setiau data, er enghraifft data practisau Meddygon Teulu, ac yn cywiro'r data codio lle bo modd. Dylid nodi bod oedi weithiau wrth gasglu data, er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru ar unwaith gyda'i Feddyg Teulu. Bydd yr oedi hwn felly yn effeithio ar gyflawnrwydd y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllynydd fod yn ymwybodol bod data'n cael ei ddiweddarau'n gyson ac efallai y bydd mân newidiadau yn y niferoedd a nodir yn y ddogfen hon flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd adnewyddu data. Wrth ymdrin â data o ardaloedd daearyddol bach, o bryd i'w gilydd byddwn yn atal niferoedd sy'n is na phump pan fydd y data'n sensitif o bosibl.



## Gwybodaeth hawlfraint

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dylunwaith a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



# Cynnwys

Negeseuon allweddol .....	7
Cyflwyniad.....	8
Cefndir .....	8
Cyflawni'r rhaglen.....	11
Llwybr Sgrinio.....	12
Prif Ystadegau.....	15
Data.....	16
Nifer y genedigaethau cymwys a'r nifer a brofwyd.....	16
Cyflawnder y cynnig (newydd-anedig).....	18
Cyflawnder y cynnig (pob babi).....	20
Cwmpas (newydd-anedig).....	22
Cwmpas (pob babi).....	24
Casgliad prydlon o sampl .....	26
Casgliad prydlon o ail sampl y gellir ei osgoi .....	28
Casgliad prydlon o ail sampl isthyroidedd cynhenid (CHT) ar gyfer babanod cyn amser .....	30
Casgliad prydlon o ail sampl ar gyfer TSH ffiniol .....	32
Cyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi.....	34
Cyfradd ail samplau o ansawdd gwael.....	37
Dilysu rhif GIG.....	39
Derbyn cerdyn yn brydlon yn y labordy .....	41
Prosesu prydlon o samplau positif yn y labordy .....	43
Gofal clinigol prydlon ar gyfer babanod positif .....	45
Diffiniadau .....	47
Y Tîm Cynhyrchu.....	52
Manylion cyswllt y rhaglen.....	53



# Tablau

Tabl 1: Nifer y genedigaethau cymwys a'r nifer a brofwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024 .....	17
Tabl 2: Sgrinio smotyn gwaed a gynigiwyd i fabanod newydd-anedig cymwys erbyn diwrnod 14 eu bywyd yn 2023-24.....	19
Tabl 3: Babanod newydd-anedig cymwys yn cael cynnig sgrinio smotyn gwaed erbyn diwrnod 14 o fywyd – Cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24.....	19
Tabl 4: Cynigiwyd sgrinio smotyn gwaed i fabanod cymwys o fewn 18 diwrnod o gofrestru yn 2023-24.....	21
Tabl 5: Babanod cymwys y cynigwyd sgrinio smotyn gwaed iddynt o fewn 18 diwrnod o gofrestru – cymhariaeth rhwng y blynyddoedd blaenorol 2021-22 a 2023-24 .....	21
Tabl 6: Babanod newydd-anedig cymwys gyda chanlyniad pendant erbyn diwrnod 17 eu bywyd yn 2023-24.....	23
Tabl 7: Babanod newydd-anedig cymwys gyda chanlyniad pendant erbyn diwrnod 17 o fywyd – cymhariaeth ar draws blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	23
Tabl 8: Babanod cymwys â chanlyniad pendant o fewn 21 diwrnod o gofrestru yn 2023-24.....	25
Tabl 9: Babanod cymwys gyda chanlyniad pendant o fewn 21 diwrnod o gofrestru – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	25
Tabl 10: Sampl cyntaf rhwng diwrnod 4 a 6 i 2023-24.....	27
Tabl 11: Sampl gyntaf rhwng diwrnod 4 a 6 – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	27
Tabl 12: Dosbarthiad dydd y sampl cyntaf yn 2023-24 .....	27
Tabl 13: Ail sampl y gellir ei osgoi o fewn 3 diwrnod calendr i'r cais yn 2023-24.....	29
Tabl 14: Ail sampl y gellir ei osgoi o fewn tri diwrnod calendr i'r cais – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	29
Tabl 15: Dosbarthiad dydd o ail sampl y gellir ei osgoi yn 2023-24 .....	29
Tabl 16: Ail sampl CHT ar gyfer babanod cynamserol erbyn diwrnod 28 o fywyd – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	31
Tabl 17: Dosbarthiad dydd o brofion ail sampl CHT ar gyfer babanod cyn amser yn 2023-24 .....	31
Tabl 18: Ail sampl ar gyfer TSH ffiniol rhwng 7 a 10 diwrnod o sampl cychwynnol yn 2023-24.....	33
Tabl 19: Ail sampl ar gyfer TSH ffiniol rhwng 7 a 10 diwrnod o'r sampl gychwynnol cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	33
Tabl 20: Cyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi yn 2023-24.....	35
Tabl 21: Cyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi – cymhariaeth ar draws blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24.....	35
Tabl 22: Cyfradd ailadrodd o ansawdd gwael yn 2023-24.....	38
Tabl 23: Cyfradd ailadrodd o ansawdd gwael – cymhariaeth rhwng blynyddoedd blaenorol 2021-22	



a 2023-24.....	38
Tabl 24: Rhif GIG ar y cerdyn yn 2023-24 .....	40
Tabl 25: Rhif y GIG ar y cerdyn – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24.....	40
Tabl 26: Labordy'n derbyn y cerdyn o fewn 3 diwrnod gwaith yn 2023-24.....	42
Tabl 27: Labordy'n derbyn cerdyn o fewn 3 diwrnod gwaith – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24.....	42
Tabl 28: Dosbarthiad diwrnod derbyn cerdyn yn y labordy ar gyfer 2023-24.....	42
Tabl 29: Prosesu samplau positif yn brydlon yn 2023-24 .....	44
Tabl 30: Prosesu samplau positif yn brydlon – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24 .....	44
Tabl 31: Darpariaeth brydlon o ofal clinigol ar gyfer babanod sydd wedi cael prawf sgrinio positif yn 2023-24.....	46
Tabl 32: Darpariaeth brydlon o ofal clinigol ar gyfer babanod sydd wedi cael prawf sgrinio positif – cymhariaeth rhwng y blynyddoedd blaenorol 2021-22 a 2023-24 .....	46

## Ffigurau

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig.....	14
Ffigur 2: Rhesymau dros ail samplau y gellir ei osgoi, canran yr holl samplau a ailadroddwyd y gofynnwyd amdanynt 2021-22 i 2023-24.....	36



# Negeseuon allweddol

- Mae profion sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn nodi babanod a allai fod yn byw â chyflwr prin ond difrifol.
- Os canfyddir bod gan faban unrhyw un o'r cyflyrau, bydd yn cael gofal a thriniaeth arbenigol gynnar.
- Gall triniaeth gynnar wella iechyd baban yr effeithir arno ac atal anabledd difrifol neu hyd yn oed farwolaeth.
- Nid yw prawf sgrinio 100% yn gywir. Os yw'r prawf sgrinio'n awgrymu problem, bydd angen profion pellach ar y baban i gadarnhau bod ganddo'r cyflwr.
- Mae'r GIG yn argymhell prawf sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig.
- Mae 'Gwybodaeth i Rieni', sydd ar-lein gan [Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru - Gwybodaeth i rieni - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#), yn esbonio'r cyflyrau y sgriniwyd ar eu cyfer a sut y cymerir y sampl.



# Cyflwyniad

## Cefndir

Nod Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru (NBSW) yw cynnig sgrinio prydlon, gyda sicrwydd ansawdd, ar gyfer cyflyrau prin ond difrifol a fyddai'n elwa o ymyrraeth gynnar i leihau marwolaethau a/neu afiachusrwydd i bob baban cymwys.

Sefydlwyd rhaglen NBSW yn 2014. Er bod sgrinio smotyn gwaed ar gyfer rhai cyflyrau ar gael drwy sefydliadau'r GIG yng Nghymru cyn hynny, roedd trosglwyddo cyfrifoldeb i raglen a reolir yn genedlaethol yn sicrhau y gellid safoni cyflawniad a pherfformiad. Yn ogystal, fel rhan o sefydliad NBSW, sicrhawyd bod pob baban cymwys yn cael cynnig sgrinio a bod pob cerdyn smotyn gwaed yn cyrraedd y labordy yn sgil cyflwyno system di-feth genedlaethol.

Sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yw pan fydd sampl bach o waed yn cael ei gymryd o sawdl y baban ar bumed diwrnod ei fywyd (gan gyfrif diwrnod geni fel diwrnod sero). Mae'r prawf sgrinio yn rhan o ofal ôl-enedigol arferol.

Yng Nghymru mae pob baban cymwys yn cael cynnig sgrinio am y cyflyrau isod sy'n cael eu hargymell gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU:

- Anhwylderau metabolaid etifeddol (IMDs):
  - Diffyg didhydrogenas asyl-CoA cadwyn ganolig (MCADD)
  - Ffenylcetonwria
  - Clefyd wrin surop masarn (MSUD)
  - Asidemia isofalerig (IVA)
  - Asidwria glwtarig math 1 (GA1)
  - Homosystinwria (HCU)
- Isthroidedd cynhenid (CHT)
- Ffeibrosis systig (CF)
- Anhwylderau clefyd y crymangelloedd (SCD)

## Cymhwysedd

Mae pob baban hyd at flwydd oed sy'n byw yng Nghymru yn gymwys ar gyfer sgrinio NBSW. Ni chynigir sgrinio am ffeibrosis systig (CF) i fabanod hŷn, gan fod y prawf yn annibynadwy ar ôl 8 wythnos oed.

Nod y rhaglen yw sgrinio'r rhan fwyaf o fabanod pan fyddant yn wythnos gyntaf eu bywyd i gefnogi mynediad at driniaeth cyn gynted â phosibl. Mae babanod sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnodau 5-6 o'u bywyd, p'un a ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru neu'n preswyllo dros dro ond sy'n derbyn gofal bydwaig arferol i gyd yn gymwys ar gyfer sgrinio NBSW.

Ni ellir cymryd samplau cyn diwrnod 4 bywyd.

Mae'r babanod hynny sy'n symud i Gymru o rywle arall yn gymwys i gael eu sgrinio gan NBSW hyd at 1 oed os nad oes tystiolaeth eu bod wedi cael eu profi neu eu bod wedi gwrthod sgrinio yn rhywle arall yn y DU.

## Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

Ceir rhagor o fanylion am NBSW ar dudalennau gwe'r rhaglen: <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-smotyn-gwaed-newydd-anedig-cymru/>

## Lleoliadau sgrinio

Cymerir samplau sgrinio fel rhan o ofal ôl-enedigol arferol, fel arfer gan fydwagedd cymunedol yn ystod ymweliadau cartref. Bydd babanod mewn wardiau ysbyty neu unedau gofal arbennig yn cael cynnig, ac yn cael eu sgrinio tra byddant yn glaf mewnol. Mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer babanod hŷn, mae samplau smotyn gwaed yn cael eu cymryd mewn clinigau sy'n cael eu rhedeg gan ymwelwyr iechyd.

## Crynodeb o weithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd

Yn ystod 2023–24, gweithredwyd nifer o newidiadau a datblygiadau i'r gwasanaethau, gan adeiladu ar fentrau blaenorol a lansio ffrydiau gwaith newydd. Yn dilyn cyflwyno'r gwasanaeth negesydd a ddefnyddir i gludo samplau ddiwedd 2022, gwnaed diwygiadau pellach i wella ansawdd y gwasanaeth. Cafodd amserlenni casglu samplau eu cysoni i wella cysondeb. Yn flaenorol, nod casgliadau canol wythnos oedd sicrhau bod samplau'n cael eu danfon yn ddyddiol i'r labordy. Fodd bynnag, datgelodd dadansoddiad fod samplau a gasglwyd ar rai dyddiau yn cymryd mwy o amser i gyrraedd y labordy, gan effeithio ar amseroedd rhoi canlyniadau. Dangoswyd bod safoni'r amserlen gasglu yn gwella prydlondeb.

Cynhaliwyd cynllun peilot i asesu effaith addasu llwybrau casglu, ac ar ôl hynny cytunodd staff y labordy i addasu eu patrymau gwaith i gynyddu argaeledd ar ddiwrnodau allweddol. Yna gwnaed y newidiadau hyn yn barhaol, gan arwain at well amser cwblhau profion.

Yn ogystal â hyn, cyflwynodd y rhaglen 'olrhain samplau unigol' drwy'r negesydd. Roedd hyn yn gofyn am ddylunio a dosbarthu amlenni sampl newydd sy'n caniatáu sganio cod bar heb ddatgelu manylion

personol y baban, gan gynnal cyfrinachedd. O ganlyniad i hyn, mae'r risg o golli samplau wedi'i leihau, a'r prosesau ar gyfer olrhain samplau y bu oedi arnynt neu samplau a gollwyd wedi'u cryfhau.

Fe wnaethon ni gynnal ffocws cryf ar sicrhau bod samplau o ansawdd uchel yn gyson yn cael eu casglu drwy gydol y flwyddyn. Arweiniodd hyn at gyhoeddi meini prawf derbyn samplau NBSW ar gyfer staff. Mae'r anodd hwn yn cynnwys canllaw gweledol i samplau a wrthodwyd a chanllawiau ymarferol ar sut i osgoi camgymeriadau cyffredin.

Yn ogystal â hyn, cyflwynwyd y 'Fframwaith Perfformiad a Sicrwydd y Rhai sy'n Cymryd Samplau', gan gynnig dull cyson i fyrddau iechyd o reoli arferion cymryd samplau. Mae'n cynnwys canllawiau ar fynd i'r afael â gwallau sy'n digwydd dro ar ôl tro a chefnogi staff sydd wedi treulio amser hir i ffwrdd o gasglu samplau.

I gefnogi'r 'Rhai sy'n Cymryd Samplau' ymhellach, lansiodd y rhaglen sesiynau 'awgrymiadau a thriciau' rhithwir ddwywaith y mis dan arweiniad Cydlynwyr y Rhaglen. Mae'r sesiynau hyn yn darparu sesiwn loywi ar agweddau craidd casglu samplau o ansawdd uchel, yn ogystal â chynnig cefnogaeth wedi'i theilwra i'r sawl sy'n bresennol. Diweddarwyd y canllawiau cyfeirio cyflym presennol, a chrëwyd deunyddiau newydd mewn ymateb i adborth gan 'gymerwyr samplau', gan sicrhau bod adnoddau'n parhau i fod yn berthnasol ac wedi'u llywio gan ddefnyddwyr.

Yn dilyn mabwysiadu dull 'digidol yn gyntaf' o ddarparu gwybodaeth cyn sgrinio yn 2022, gan ddarparu mynediad i'r rhan fwyaf o deuluoedd at wybodaeth am sgrinio NBSW drwy dudalennau gwe'r rhaglen, yn hytrach na thaflen wybodaeth bapur; cwblhawyd gwerthusiad o effaith y newid. Cafodd y newid groeso da ac fe gafwyd argymhellion i lywio datblygiadau cynnwys digidol yn y dyfodol yn seiliedig ar y data a gasglwyd o batrymau gwyllo ar gyfer animeiddiadau'r rhaglen.

Ym mis Ionawr 2024, gwnaed newidiadau i'r broses ar gyfer rheoli babanod sy'n cael eu nodi fel cludyddion anhwylderau clefyd y crymangelloedd neu haemoglobin anarferol arall yn dilyn profion cynnar wedi'u targedu gan Sgrinio Cyn Geni Cymru (ASW). Nod y newidiadau hyn yw lleihau'r dryswch posibl ymhlith rhieni a achosir gan y gwahanol brofion a ddefnyddir ar gyfer sgrinio smotiau gwaed cyn geni a newydd-anedig. Er nad yw NBSW yn profi'n weithredol am statws cludydd, gellir adnabod cludyddion yn achlysurol. Mewn cyferbyniad, mae'r prawf ASW wedi'i dargedu yn anelu'n weithredol at nodi cludyddion a babanod sydd â chlefyd y crymangelloedd O ganlyniad i hyn, gall rhieni dderbyn canlyniadau sgrinio gwahanol o'r ddwy raglen. I fynd i'r afael â hyn, cyflwynodd NBSW broses sy'n adlewyrchu'r hyn a arferai ddarparu canlyniadau ar gyfer babanod a nodwyd fel clefyd y crymangelloedd/cludyddion haemoglobin anarferol eraill trwy brofion NBSW. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth glir sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddwy set o ganlyniadau ac yn rhoi cyfle i drafod y canfyddiadau gyda'u Hymwelydd Iechyd.

Creodd effaith gadarnhaol amser cludo samplau llai, ynghyd â'r gallu i olrhain samplau unigol yn well trwy'r gwasanaeth negesydd, gyfle i wella prydlondeb samplau ymhellach. Er mwyn gwella ymhellach a sicrhau nad oes unrhyw faban yn cael ei fethu, mae gweinyddwyr y rhaglen yn rheoli proses ddi-feth i nodi unrhyw faban sy'n cyrraedd diwrnod 14 o fywyd heb 'gerdyn sampl' wedi'i archebu yn y labordy. Ym mis Hydref 2023, cafodd y diwrnod ar gyfer cychwyn y broses hon ei symud ymlaen o ddiwrnod 14 i ddiwrnod 12. Mae'r newid hwn yn cefnogi adnabod a phrofi babanod y mae eu sgrinio wedi'i fethu neu wedi'i ohirio yn gynharach, gan helpu i wella'r cwmpas sgrinio cyffredinol a'r prydlondeb.

Bu rhai newidiadau i'r strwythur rheoli a'r rolau o fewn Sgrinio Clyw Babanod a weithredwyd rhwng Medi 2023 ac Ionawr 2024 ac a effeithiodd ar NBSW. Yn fwyaf nodedig, symudodd y prif gyfrifoldeb am ddi-feth NBSW i'r Rheolwr Gweithrediadau Sgrinio Newydd-anedig newydd yng Ngogledd Cymru. Yn ogystal â hyn, datblygwyd swydd newydd 'Cydlynnydd Llwybr Sgrinio Newydd-anedig' i reoli'r holl Weinyddwyr Sgrinio Newydd-anedig o dan un strwythur rheoli llinell, ac i ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer gwella prosesau a sicrwydd.

## Datblygiadau ers y flwyddyn a adroddwyd

Parhaodd y gwaith ar lefel y DU i ddylunio cynigion manwl ar gyfer llwybrau clinigol a phrofion labordai i alluogi gweithredu sgrinio ar gyfer Tyrosinemia Etifeddol Math 1 (HT1). Ym mis Awst 2023, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad a wnaed yn flaenorol gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i gyflwyno sgrinio HT1 fel rhan o NBSW. Sefydlwyd grŵp gweithredu ac mae gwaith yn parhau i addasu'r cynlluniau i'w defnyddio yng Nghymru.

Gwnaed cynnydd pellach ar leihau diwrnod sbarduno system di-feth ar gyfer samplau y bu oedi arnynt, a ailosodwyd ar ddiwrnod 11 ym mis Ionawr 2025. Y bwriad yw lleihau'r amserlen ymhellach, ond bydd hyn yn gofyn am gapasiti gwasanaeth ychwanegol i symud ymlaen.

Mae gwaith sylweddol ar y gweill i wella sefydlogrwydd system TG glinigol 'System Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru' (NBSWS). Mae cynlluniau pellach i addasu ymarferoldeb y system. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn galluogi amrywiaeth o welliannau a datblygiadau gwasanaeth.

## Cyflawni'r rhaglen

Mae Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am gynllunio, paratoi a chyflawni rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru (NBSW). Mae Pennaeth Rhaglen NBSW yn rheoli NBSW a Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW). Mae 2 gydlynnydd rhaglen NBSW gyda chefnogaeth weinyddol.

Mae'r cynnig o sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig i fabanod cymwys a chasglu samplau smotyn gwaed yn cael eu cynnal gan weithwyr iechyd proffesiynol o fewn y 7 bwrdd iechyd yng Nghymru.

Labordy Sgrinio Newydd-anedig Cymru yng Nghaerdydd sy'n gyfrifol am brofi'r samplau sgrinio a gymerir yng Nghymru ac am atgyfeirio babanod yr amheuir bod ganddynt unrhyw rai o'r cyflyrau y sgriniwyd ar eu cyfer. Cyfeirir babanod at rwydwaith o glinigwyr ac arweinwyr meddygol dynodedig yn y byrddau iechyd. Mae gan y rhaglen Gynghorwyr Sicrhau Ansawdd allanol sy'n cynnwys rhai o'r arweinwyr meddygol.

Mae 'System Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru' (NBSWS) yn system gyfrifiadurol sydd wedi'i datblygu i gefnogi'r gwaith o reoli rhaglen ddiogel a chynaliadwy ar draws Cymru. Mae'r system hon yn casglu a choladu gwybodaeth ar draws y rhaglen i fonitro ansawdd sgrinio smotyn gwaed



newydd-anedig ac yn darparu adroddiadau sicrhau ansawdd a rheoli yn seiliedig ar y polisiau a'r safonau.

Mae NBSWS hefyd yn nodi babanod y mae'r rhaglen yn disgwyl derbyn naill ai cerdyn smotyn gwaed ar eu cyfer neu ddirywiad ar gyfer y prawf/profion ac mae'n cychwyn gweithdrefnau di-feth ar gyfer babanod 'coll' posibl. Mae'r system di-feth hon yn nodi babanod yng Nghymru nad oes ganddynt sampl sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn y Labordy Sgrinio Newydd-anedig erbyn diwrnod 14 o'u bywyd (erbyn diwrnod 12 o fis Hydref 2023). Cymerir camau dilynol dan dimau gweinyddu di-feth ar gyfer pob baban a nodir gan y di-feth. Mae'r 3 thîm rhanbarthol ar draws Cymru yn cael eu staffio gan reolwyr gweithrediadau sgrinio babanod newydd-anedig a staff gweinyddol sy'n gweithio ar draws rhaglenni NBSW a Sgrinio Clyw Babanod Cymru.

Ym mhob bwrdd iechyd mae Arweinydd Llywodraethu ar gyfer Sgrinio Cyn Geni a Babanod Newydd-anedig. Bydd y rôl hon, a ariennir gan Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn gweithredu fel cyswllt rhwng y bwrdd iechyd ac NBSW. Mae'r uwch fydwragedd hyn yn arwain y gwaith o ddarparu sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn y bwrdd iechyd i sicrhau y darperir gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

## Llwybr Sgrinio

Mae babanod sy'n gymwys i gael eu sgrinio yn cael eu nodi ym mhob bwrdd iechyd o hysbysiadau genedigaeth bydwragedd. Mae babanod cymwys hyd at flwydd oed sy'n symud i Gymru yn cael eu nodi ar ôl cofrestru ar System Iechyd Plant Cymru.

Mae'r cynnig i sgrinio a chasglu samplau smotyn gwaed yn cael ei wneud gan weithwyr iechyd proffesiynol o fewn y byrddau iechyd yn unol â chanllawiau, safonau a pholisiau NBSW. Mae mwyafrif y samplau yn cael eu cymryd yng nghartref y baban gan y fydwraig. Mae staff unedau newyddenedigol neu bediatrig yn cynnig y sgrinio ac yn cymryd samplau ar gyfer y babanod hynny sy'n gleifion mewnlol yn yr unedau hynny ar ddiwrnod 5 eu bywyd. Mae ymwelwyr iechyd yn cymryd cyfrifoldeb am gynnig a threfnu casglu samplau ar gyfer babanod cymwys hŷn sydd wedi symud i Gymru.

Mae samplau sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn cael eu hanfon i Labordy Sgrinio Babanod Newydd-anedig Cymru yng Nghaerdydd i'w profi. Mae'r labordy yn derbyn samplau yn unol â chanllawiau ansawdd smotyn gwaed y DU ar gyfer labordai sgrinio. Mae babanod yr amheuir bod ganddynt un o'r cyflyrau y sgriniwyd ar eu cyfer yn cael eu hatgyfeirio, yn unol â'r canllawiau atgyfeirio clinigol perthnasol, at y clinigwr arbenigol priodol ar gyfer profion diagnostig a thriniaeth. Mae hyn o fewn 24 awr i ganlyniad y sgrinio.

Mae'r rhaglen yn anfon canlyniadau sgrinio smotyn gwaed at rieni drwy lythyr o fewn 6 wythnos i gymryd y sampl.

Ar gyfer babanod yr amheuir bod ganddynt unrhyw un o'r cyflyrau, mae'r ymwelydd iechyd yn darparu'r llythyr canlyniadau yn bersonol i roi cyfle i rieni drafod y canlyniad. Ar ôl i'r baban gael ei atgyfeirio i gael asesiad diagnostig, ac unwaith y bydd y broses hon wedi dechrau, mae'r rhaglen yn




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

cysylltu ag ymwelydd iechyd y baban i'w hysbysu o'r canlyniad. Yna anfonir y llythyr canlyniadau sgrinio a gwybodaeth ategol am y cyflwr a nodwyd at ymwelydd iechyd y baban er mwyn galluogi trafodaeth wybodus am y canlyniadau gyda'r rhieni. Mae'r canlyniadau ar gyfer pob baban hefyd yn cael eu hanfon i'r Adran Iechyd Plant leol yn electronig ac yn cael eu rhoi ar y System Iechyd Plant.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-smotyn-gwaed-newydd-anedig-cymru/>



Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig



# Prif Ystadegau

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024

- Nifer y genedigaethau cymwys ar draws Cymru oedd 28,014.
- Nifer y babanod a brofwyd oedd 27,856 (99.4%).
- Roedd 97.5% o fabanod newydd-anedig cymwys wedi cael cerdyn smotyn gwaed (ar gyfer sgrinio neu ddirywiad) yn y labordy erbyn diwrnod 14 eu bywyd (cyflawnder y cynnig).
- Roedd gan 95.2% o fabanod newydd-anedig cymwys ganlyniadau sgrinio smotyn gwaed terfynol erbyn diwrnod 17 o'u bywyd (cwmpas).
- Cymerwyd 95.1% o samplau smotyn gwaed cyntaf rhwng diwrnodau 4 a 6 eu bywyd.
- Y gyfradd ailadrodd y gellid ei hosgoi oedd 4.7%, sy'n cynrychioli samplau a ailadroddwyd sy'n ofynnol oherwydd smotiau gwaed o ansawdd gwael neu wybodaeth anghyflawn/anghywir a gofnodwyd.
- Roedd gan 99.3% o gardiau smotyn gwaed a dderbyniwyd yn y labordy rif GIG dilys ar gyfer y baban wedi'i gofnodi.
- Derbyniwyd 91.4% o gardiau smotyn gwaed o fewn tri diwrnod gwaith i gasglu sampl.
- Roedd nifer y babanod a sgriniwyd yn bositif a ganfuwyd yn y flwyddyn fel a ganlyn: ffenylcetonwria (3), clefyd wrin surop marsan (0), diffyg didhydrogenas acyl-CoA cadwyn ganolig (4), homocystinuria (0), asidwria glwtaraidd math 1 (0), isovaleric acidaemia (1), isthyroidedd cynhenid (33), ffeibrosis systig (23) ac anhwylderau clefyd y crymangelloedd (3). Mae'r rhain yn ganlyniadau sgrinio'n bositif, ni chafodd pob baban ddiagnosis o'r cyflwr a amheuir.



# Data

## Nifer y genedigaethau cymwys a'r nifer a brofwyd

### Diffiniad

Cyfanswm y babanod a oedd yn bodloni meini prawf cymhwysedd NBSW yn ystod y cyfnod, a nifer y rhai a gafodd eu sgrinio.

### Canlyniad ar gyfer 2023-24

28,014 o enedigaethau cymwys, gyda 27,856 wedi eu profi.

### Tuedd tair blynedd

Roedd 28,014 o enedigaethau cymwys (27,856 wedi'u profi) yn 2023-24, 28,313 o enedigaethau cymwys (28,178 wedi'u profi) yn 2022-23, a 29,716 o enedigaethau cymwys (29,587 wedi'u profi) yn 2021-22.

### Sylw

Roedd 158 o fabanod na chawsant eu profi yn ystod y cyfnod hwn. Gwrthododd rhieni sgrinio mewn 59 o fabanod newydd-anedig a 59 o fabanod a symudodd i Gymru o'r tu allan i'r DU. Yn anffodus, bu 22 o farwolaethau ar ôl diwrnod 5.

Cofnodwyd statws ataliedig ar gyfer 18 o fabanod. Roedd y rhain yn symudiadau i mewn i Gymru o'r tu allan i'r DU nad oedd y rhaglen, ar adeg yr adroddiad, wedi gallu cysylltu â'r rhieni na'r ymwelydd iechyd i gael ateb pendant ynghylch cydsyniad i sgrinio.



## Ffigurau a thablau

Tabl 1: Nifer y genedigaethau cymwys a'r nifer a brofwyd yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024

Bwrdd Iechyd	Genedigaethau	Wedi'u profi	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	5,697	5,678	99.7
Betsi Cadwaladr	5,782	5,750	99.4
Caerdydd a'r Fro	4,655	4,621	99.3
Cwm Taf	4,044	4,032	99.7
Hywel Dda	3,077	3,052	99.2
Powys	983	971	98.8
Bae Abertawe	3,358	3,336	99.3
Cymru	28,014	27,856	99.4

Mae cyfanswm Cymru uchod ac ym mhob tabl dilynol yn cynnwys rhai babanod nad ydynt yn mapio i fwrdd iechyd.



## Cyflawnder y cynnig (newydd-anedig)

### Diffiniad a safon

Canran y babanod newydd-anedig cymwys sydd wedi cael hysbysiad o dderbyn cerdyn smotyn gwaed yn y labordy erbyn diwrnod 14 eu bywyd.

Safon: 99%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 97.5%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 97.5% yn 2023-24, 96.5% yn 2022-23, a 97.2% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Ar lefel Cymru gyfan, ni chyrrhaeddwyd y safon hon yn ystod y flwyddyn. Er y cyflawnwyd y safon mewn rhai ardaloedd Bwrdd Iechyd yn ystod misoedd unigol, disgynnodd perfformiad ar draws y flwyddyn i law'r safon ar gyfer pob sefydliad.

### Sylw

Mae perfformiad yn erbyn y safon hon yn cael ei effeithio gan brydlondeb y cynnig sgrinio ac anfon y cerdyn sampl. Mae effeithiolrwydd trefniadau cludo sampl a phrosesau archebu labordy hefyd yn chwarae rhan allweddol.

Canfuwyd bod y gwasanaeth negesydd samplau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol wedi cael effaith gadarnhaol ar amseroedd cludo. Roedd amseroedd cludo gwell yn amlwg yn ystod cyfnod y Nadolig; roedd hyn yn cymharu'n ffafriol â blynyddoedd blaenorol lle'r oedd oedi sylweddol yn gyffredin. Roedd perfformiad ym mis Ebrill yn arbennig o wael, yn gysylltiedig â tharfu ar wasanaethau arferol yn ystod cyfnod y Pasg.

Yn fwy cyffredinol, mae'r rhaglen yn pwysleisio'n rheolaidd bwysigrwydd casglu ac anfon samplau yn brydlon. Mae hyn yn cynnwys yr angen i gwblhau a chyflwyno cardiau sampl pan wrthodir y cynnig sgrinio.

## Ffigurau a thablau

**Tabl 2: Sgrinio smotyn gwaed a gynigiwyd i fabanod newydd-anedig cymwys erbyn diwrnod 14 eu bywyd yn 2023-24**

Bwrdd Iechyd	Genedigaethau	Cynnig mewn pryd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	5,697	5,576	97.9
Betsi Cadwaladr	5,782	5,676	98.2
Caerdydd a'r Fro	4,655	4,490	96.5
Cwm Taf	4,044	3,958	97.9
Hywel Dda	3,077	3,022	98.2
Powys	983	952	96.8
Bae Abertawe	3,358	3,235	96.3
Cymru	28,014	27,313	97.5

**Tabl 3: Babanod newydd-anedig cymwys yn cael cynnig sgrinio smotyn gwaed erbyn diwrnod 14 o fywyd – Cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24**

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	97.3	96.5	97.9
Betsi Cadwaladr	96.8	96.8	98.2
Caerdydd a'r Fro	96.3	95.9	96.5
Cwm Taf	98.2	97.6	97.9
Hywel Dda	97.9	97.6	98.2
Powys	97.8	96.9	96.8
Bae Abertawe	96.8	94.7	96.3
Cymru	97.2	96.5	97.5



## Cyflawnder y cynnig (pob babi)

### Diffiniad a safon

Canran yr holl fabanod hyd at 1 flwydd oed sydd wedi cael hysbysiad o dderbyn cerdyn smotyn gwaed yn y labordy o fewn 18 diwrnod o enedigaeth.

Safon: 99%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 98.4%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 98.4% yn 2023-24, 98.6% yn 2022-23, a 98.7% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Ni chyflawnodd unrhyw Fwrdd Iechyd y safon hon. Roedd pob un o drwch blewyn yn methu â chyrraedd y lefel ofynnol.

### Sylw

Mae'r gwasanaeth negesydd samplau yn darparu cyfleoedd i wella perfformiad yn erbyn y safon hon. Yn ogystal â hyn, gall y cyfnod byrrach cyn mynd ar drywydd sampl yn dilyn newid yn sbardun y system di-feth ar gyfer samplau y bu oedi arnynt gefnogi gwelliannau yn y dyfodol. Nodwyd gwelliant bach rhwng Ionawr a Mawrth 2024.

Mae babanod hŷn sy'n symud i Gymru wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y garfan o fabanod nad yw eu cerdyn smotyn gwaed yn cyrraedd o fewn yr amserlen safonol. Mae rhai Byrddau Iechyd yn cynnal clinigau i gymryd samplau smotyn gwaed i gefnogi casglu samplau o ansawdd uchel gan grŵp llai o staff arbenigol. Gall amseriad y clinigau hyn effeithio ar berfformiad yn erbyn y safon hon.

## Ffigurau a thablau

Tabl 4: Cynigiwyd sgrinio smotyn gwaed i fabanod cymwys o fewn 18 diwrnod o gofrestru yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Babanod	Cynnig mewn pryd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	11,570	11,424	98.7
Betsi Cadwaladr	11,739	11,587	98.7
Caerdydd a'r Fro	9,420	9,216	97.8
Cwm Taf	8,237	8,145	98.9
Hywel Dda	6,127	6,054	98.8
Powys	1,932	1,900	98.3
Bae Abertawe	6,645	6,483	97.6
Cymru	56,397	55,519	98.4

Tabl 5: Babanod cymwys y cynigwyd sgrinio smotyn gwaed iddynt o fewn 18 diwrnod o gofrestru – cymhariaeth rhwng y blynyddoedd blaenorol 2021-22 a 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	98.8	98.7	98.7
Betsi Cadwaladr	98.9	98.8	98.7
Caerdydd a'r Fro	98.4	98.0	97.8
Cwm Taf	99.1	99.1	98.9
Hywel Dda	98.9	98.8	98.8
Powys	98.9	98.9	98.3
Bae Abertawe	98.1	97.8	97.6
Cymru	98.7	98.6	98.4



## Cwmpas (newydd-anedig)

### Diffiniad a safon

Canran y babanod newydd-anedig sy'n cael canlyniad sgrinio smotyn gwaed terfynol erbyn diwrnod 17 eu bywyd.

Safon: 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 95.2%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 95.2% yn 2023-24, 95.0% yn 2022-23, a 95.9% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Cyrhaeddodd tri o'r saith Bwrdd Iechyd y safon hon. Roedd y lleill o drwch blewyn yn methu â chyrraedd y lefel ofynnol. Roedd perfformiad yn amrywio ar draws y flwyddyn ar gyfer pob sefydliad. Nid oedd yr un Bwrdd Iechyd yn cyflawni 95% yn gyson, ac roedd perfformiad pob un naill ai'n cael ei gynnal neu'n gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod mis Mehefin, mis Medi a mis Mawrth, cyflawnodd pob Bwrdd Iechyd y safon. Gostyngodd perfformiad fwyaf sylweddol yn ystod mis Ebrill - dim ond un Bwrdd Iechyd wnaeth gyrraedd y safon.

### Sylw

Effeithir ar berfformiad cwmpas gan brydlondeb ac ansawdd y broses o gasglu a dosbarthu samplau, effeithiolrwydd trefniadau cludo samplau a chyflymder y profion labordy. O'r herwydd, mae perfformiad yn gyffredinol yn is na'r safon pan fydd prydlondeb yn cael ei effeithio gan benwythnosau gwyliau banc estynedig. Roedd hyn yn amlwg yn ystod mis Ebrill lle cafodd y Pasg effaith ar gyflenwi gwasanaethau. Fodd bynnag, gwelwyd effaith gadarnhaol y gwasanaeth negesydd samplau newydd ar gyfer babanod a aned ym mis Rhagfyr. Roedd y perfformiad llawer gwell o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol er gwaethaf y penwythnos 4 diwrnod.

Wrth symud ymlaen, bydd parhau i ddefnyddio'r negesydd samplau a newidiadau i'r system di-feth samplau y bu oedi arnynt yn darparu cyfleoedd i wella.

## Ffigurau a thablau

Tabl 6: Babanod newydd-anedig cymwys gyda chanlyniad pendant erbyn diwrnod 17 eu bywyd yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Genedigaethau	Canlyniad mewn pryd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	5,697	5,467	96.0
Betsi Cadwaladr	5,782	5,532	95.7
Caerdydd a'r Fro	4,655	4,398	94.5
Cwm Taf	4,044	3,838	94.9
Hywel Dda	3,077	2,966	96.4
Powys	983	930	94.6
Bae Abertawe	3,358	3,162	94.2
Cymru	28,014	26,674	95.2

Tabl 7: Babanod newydd-anedig cymwys gyda chanlyniad pendant erbyn diwrnod 17 o fywyd – cymhariaeth ar draws blynnyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	96.4	95.4	96.0
Betsi Cadwaladr	95.4	95.2	95.7
Caerdydd a'r Fro	95.2	94.3	94.5
Cwm Taf	96.5	95.9	94.9
Hywel Dda	96.7	95.3	96.4
Powys	96.0	96.3	94.6
Bae Abertawe	95.4	92.6	94.2
Cymru	95.9	95.0	95.2



## Cwmpas (pob babi)

### Diffiniad a safon

Canran yr holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio smotyn gwaed terfynol o fewn 21 diwrnod o gofrestru.

Safon: 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 96.5%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 96.5% yn 2023-24, 96.8% yn 2022-23, a 97.2% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Cyflawnwyd y safon hon ar lefel Cymru gyfan a chan bob Bwrdd Iechyd unigol. Nodir amrywiadau mewn perfformiad, gydag effaith gyfatebol cyfradd ailadrodd uwch y gellir ei hosgoi ac oedi wrth gasglu ail samplau'n cyfrannu yn achos rhai byrddau iechyd

### Sylw

Effeithir ar berfformiad yn erbyn y safon hon gan brydlondeb ac ansawdd y sampl cyntaf. Yn ogystal, lle mae angen ail samplau, gall oedi wrth gasglu'r rhain gyfrannu at lai o berfformiad. Fel sy'n wir am safonau eraill, mae oedi rhwng dal samplau a chyrraedd y labordy hefyd yn ffactor.

Ar gyfer babanod hŷn, mae rhai Byrddau Iechyd yn cynnal clinigau i gymryd samplau smotyn gwaed i gefnogi casglu samplau o ansawdd uchel gan grŵp llai o staff arbenigol. Gall amseriad y clinigau hyn effeithio ar berfformiad yn erbyn y safon hon.

## Ffigurau a thablau

Tabl 8: Babanod cymwys â chanlyniad pendant o fewn 21 diwrnod o gofrestru yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Babanod	Canlyniad mewn pryd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	11,570	11,247	97.2
Betsi Cadwaladr	11,739	11,331	96.5
Caerdydd a'r Fro	9,420	9,041	96.0
Cwm Taf	8,237	7,960	96.6
Hywel Dda	6,127	5,942	97.0
Powys	1,932	1,870	96.8
Bae Abertawe	6,645	6,344	95.5
Cymru	56,397	54,423	96.5

Tabl 9: Babanod cymwys gyda chanlyniad pendant o fewn 21 diwrnod o gofrestru – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	97.6	97.4	97.2
Betsi Cadwaladr	96.8	96.6	96.5
Caerdydd a'r Fro	97.0	96.4	96.0
Cwm Taf	97.6	97.4	96.6
Hywel Dda	97.5	97.0	97.0
Powys	97.2	97.4	96.8
Bae Abertawe	96.8	95.9	95.5
Cymru	97.2	96.8	96.5



## Casgliad prydlon o sampl

### Diffiniad a safon

Dylid cymryd y sampl smotyn gwaed cyntaf rhwng diwrnod 4 a 6 eu bywyd (gan gyfrif diwrnod geni fel diwrnod 0).

Safon: 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 95.1%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 95.1% yn 2023-24, 95.2% yn 2022-23, a 95.2% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Mae perfformiad yn erbyn y safon hon yn amrywiol a gall prinder staff effeithio'n sylweddol arno. Mewn rhai Byrddau Iechyd, mae patrymau sifftiau a ffocws ar barhad gofal gan fydwraig benodol yn arwain at ychydig o oedi wrth gasglu samplau. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd perfformiad yn amrywio drwy gydol y flwyddyn. Roedd rhai gostyngiadau yn ystod gwyliau ysgol lle gall lefelau staffio fod yn is. Cyflawnodd un Bwrdd Iechyd y safon yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Methodd un Bwrdd Iechyd arall â chyrraedd y safon bob mis.

### Sylw

Mae Tabl 12 yn dangos dadansoddiad o'r diwrnod casglu sampl, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd yn dewis blaenoriaethu cipio sampl ar ddiwrnod 5 eu bywyd, yn unol â'r arfer a argymhellir. Cymerwyd nifer sylweddol o samplau ar ddiwrnod 7, gan ddisgyn ychydig y tu allan i'r safon. Cymerwyd cyfran nodedig ar ddiwrnod 10 neu'n hwyrach, sy'n awgrymu bod y babanod hyn wedi'u colli i ddechrau.

Mae data perfformiad ar gyfer prydlondeb casglu samplau yn cael ei fwydo'n ôl bob mis i arweinwyr llywodraethu'r byrddau Iechyd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth. Mae'r rhaglen yn parhau i weithio gyda'r Byrddau Iechyd i wella prydlondeb casglu samplau ymhellach.

## Ffigurau a thablau

Tabl 10: Sampl cyntaf rhwng diwrnod 4 a 6 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Samplau	Casgliad mewn pryd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	5,664	5,397	95.3
Betsi Cadwaladr	5,613	5,346	95.2
Caerdydd a'r Fro	4,626	4,318	93.3
Cwm Taf	4,025	3,864	96.0
Hywel Dda	3,069	2,997	97.7
Powys	905	863	95.4
Bae Abertawe	3,336	3,128	93.8
Cymru	27,549	26,205	95.1

Tabl 11: Sampl gyntaf rhwng diwrnod 4 a 6 – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	96.2	95.3	95.3
Betsi Cadwaladr	92.6	94.7	95.2
Caerdydd a'r Fro	93.9	93.4	93.3
Cwm Taf	96.4	96.0	96.0
Hywel Dda	97.1	96.9	97.7
Powys	96.3	96.9	95.4
Bae Abertawe	96.4	95.9	93.8
Cymru	95.2	95.2	95.1

Tabl 12: Dosbarthiad dydd y sampl cyntaf yn 2023-24

<4	4	5	6	7	8	9	10	>10	Cyfanswm
53	6,617	16,329	3,259	510	129	63	39	550	27,549
0.2%	24.0%	59.3%	11.8%	1.9%	0.5%	0.2%	0.1%	2.0%	



## Casgliad prydlon o ail sampl y gellir ei osgoi

### Diffiniad a safon

Dylid cynnal profion ailadroddus ar gyfer samplau o ansawdd annigonol/gwael neu wybodaeth cerdyn sampl anghyflawn/anghywir o fewn 3 diwrnod calendr i'r cais.

Safon: 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 79.8%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 79.8% yn 2023-24, 71.3% yn 2022-23, a 72.4% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Mae perfformiad yn erbyn y safon hon ar lefel Bwrdd Iechyd yn parhau i amrywio. Mae niferoedd bach ym Mhowys (Tabl 20) yn cael effaith anghymesur ar eu cyfradd perfformiad o gymharu ag ardaloedd eraill.

### Sylw

Mae pob cais am ail samplau yn cael ei e-bostio i gyfeiriadau e-bost generig dynodedig yn yr unedau mamolaeth a newyddenedigol. Mae adolygiadau rheolaidd o'r broses wedi'u cynnal er mwyn gallu gwneud gwelliannau. Mae'r rhaglen yn parhau i weithio'n agos gyda'r Labordy Sgrinio Babanod Newydd-anedig i nodi unrhyw ffactorau a allai effeithio ar gasglu ail samplau yn brydlon. Prif ffocws tîm y rhaglen yw lleihau'r gyfradd ailadroddus y gellir ei hosgoi, sy'n lleihau'r galw am y gweithgaredd hwn sydd â phwysau amser.

Mae Tabl 15 yn dangos bod cyfran sylweddol o samplau y bu oedi arnynt yn cael eu casglu ar y pedwerydd diwrnod, neu fod amser estynedig cyn iddynt gael y samplau (mwy na 10 diwrnod).

## Ffigurau a thablau

Tabl 13: Ail sampl y gellir ei osgoi o fewn 3 diwrnod calendr i'r cais yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	83.7
Betsi Cadwaladr	75.2
Caerdydd a'r Fro	77.8
Cwm Taf	74.2
Hywel Dda	86.7
Powys	86.4
Bae Abertawe	83.5
Cymru	79.8

Tabl 14: Ail sampl y gellir ei osgoi o fewn tri diwrnod calendr i'r cais – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	88.9	81.6	83.7
Betsi Cadwaladr	33.6	62.6	75.2
Caerdydd a'r Fro	69.6	69.9	77.8
Cwm Taf	82.5	76.4	74.2
Hywel Dda	80.9	76.0	86.7
Powys	88.0	76.5	86.4
Bae Abertawe	84.5	66.9	83.5
Cymru	72.4	71.3	79.8

Tabl 15: Dosbarthiad dydd o ail sampl y gellir ei osgoi yn 2023-24

<=3	4	5	6	7	8	9	10	>10	Cyfanswm
1,106	43	19	25	12	5	8	4	154	1,376
80.4%	3.1%	1.4%	1.8%	0.9%	0.4%	0.6%	0.3%	11.2%	



# Casgliad prydlon o ail sampl isthyroidedd cynhenid (CHT) ar gyfer babanod cyn amser

## Diffiniad a safon

Dylid cymryd ail sampl smotyn gwaed ar ddiwrnod 28 bywyd babanod cyn amser neu ddiwrnod rhyddhau os yw'n gynharach.

Safon: 95%

## Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 63.1%

## Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 63.1% yn 2023-24, 62.5% yn 2022-23, a 59.7% yn 2021-22.

## Trosolwg daearyddol

Ar lefel Cymru gyfan, ni chyrrhaeddodd perfformiad y safon drwy gydol y flwyddyn. Cyflawnodd un Bwrdd Iechyd unigol y safon yn gyson. Cyflawnodd y sefydliadau sy'n weddill y safon am o leiaf 1 mis. Mae'r nifer cymharol fach o ail samplau sydd eu hangen bob mis fesul uned yn golygu y gall oedi wrth ddal babanod unigol gael effaith fawr ar ffigurau perfformiad.

## Sylw

Mae ffigurau'r flwyddyn gyfredol wedi gwella o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, ond mae angen gwneud mwy o waith. Mae'r rhaglen yn parhau i weithio'n agos gyda'r unedau newyddenedigol ar draws Cymru i wella perfformiad fel bod ail samplau CHT yn cael eu cymryd ar yr amser cywir. Mae adnoddau addysg NBSW ar gyfer staff unedau newyddenedigol yn cynnwys y ffilm fer 'Sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig mewn unedau newyddenedigol'. Mae grŵp gorchwyl a gorffen Cymru gyfan gyda chynrychiolwyr o unedau newyddenedigol yn bodoli i rannu arfer da ac archwilio gwella gwasanaethau.



## Ffigurau a thablau

Tabl 16: Ail sampl CHT ar gyfer babanod cynamserol erbyn diwrnod 28 o fywyd – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Cymru	59.7	62.5	63.1

Tabl 17: Dosbarthiad dydd o brofion ail sampl CHT ar gyfer babanod cyn amser yn 2023-24

<28	28	29	30	31	32	33	34	35	>35	Cyfanswm
46	106	28	16	6	5	6	1	8	16	238



## Casgliad prydlon o ail sampl ar gyfer TSH ffiniol

### Diffiniad a safon

Babanod â chanlyniad hormon ysgogol thyroid ffiniol (TSH) sydd ag ail gerdyn smotyn gwaed ar gyfer TSH a dderbyniwyd yn y labordy a gasglwyd rhwng 7 a 10 diwrnod ar ôl y sampl ffiniol gychwynol.

Safon: 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 74.6 %

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 74.6 % yn 2023-24, 79.0% yn 2022-23, a 71.4% yn 2021-22.

### Sylw

Dim ond ar lefel Cymru gyfan y mae'r data hwn ar gael. Yn yr un modd â phroffion ail sampl eraill, mae nifer gyffredinol y babanod y mae angen y prawf ychwanegol hwn arnynt yn gymharol fach, sy'n effeithio ar y ffigurau canrannol.

Mae'r duedd tair blynedd yn dangos perfformiad amrywiol. Mae ymgysylltiad agos rhwng tîm y rhaglen, cydweithwyr y labordy a staff y Bwrdd Iechyd yn parhau, er mwyn gwella'r sefyllfa hon.



## Ffigurau a thablau

Tabl 18: Ail sampl ar gyfer TSH ffiniol rhwng 7 a 10 diwrnod o sampl cychwynnol yn 2023-24

	Ail TSH	Ail mewn pryd	Cyfradd (%)
Cymru	71	53	74.6

Tabl 19: Ail sampl ar gyfer TSH ffiniol rhwng 7 a 10 diwrnod o'r sampl gychwynnol cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Cymru	71.4	79.0	74.6



## Cyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi

### Diffiniad a safon

Cardiau ailadrodd sy'n ofynnol oherwydd smotiau gwaed o ansawdd gwael neu wybodaeth anghyflawn/anghywir wedi'i chofnodi.

Safonol:  $\leq 2\%$

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 4.7%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 4.7% yn 2023-24, 2.8% yn 2022-23, a 2.4% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Roedd perfformiad yn erbyn y safon hon yn gyson wael drwy gydol y flwyddyn. Er bod amrywioldeb rhwng ardaloedd y Byrddau Iechyd, roedd y cyflawniad safonol yn ysbeidiol heb i unrhyw sefydliad lwyddo i gynnal perfformiad. Profodd tri Bwrdd Iechyd gyfraddau ailadrodd y gellid eu hosgoi yn arbennig o uchel.

### Sylw

Mae cynnydd mewn cyfraddau ailadrodd yn bennaf oherwydd cynnydd mewn samplau o ansawdd gwael, sy'n cynnwys samplau heb ddigon o waed wedi'i ddal. Mae Ffigur 2 yn dangos, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, fod cynnydd yn nifer y samplau a wrthodwyd oherwydd gwallau dogfennu gyda'r rhif GIG. Priodolir hyn i dynhau'r protocol sy'n gysylltiedig â'r meini prawf hyn, yn dilyn glynu'n uchel at y safon hon mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae'r rhaglen yn cymryd ystod eang o gamau gweithredu i wella ansawdd y sampl a lleihau nifer y babanod sydd angen ail samplau. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o fideos hyfforddi, adnoddau a sesiynau a ddarperir gan staff y rhaglen. Anogir y rhai sy'n cymryd samplau i gofrestru gyda'r rhaglen sy'n sicrhau eu bod yn derbyn diweddariadau rhaglen yn uniongyrchol ac yn caniatáu iddynt weld adroddiadau unigol ar ansawdd y samplau y maent wedi'u cymryd.

Mae cyhoeddi fframwaith perfformiad a sicrwydd y rhai sy'n cymryd samplau a chanllaw gweledol ar feini prawf derbyn samplau ym mis Ionawr 2024 yn darparu offer defnyddiol i Fyrddau Iechyd gefnogi gwelliannau i arferion y rhai sy'n cymryd samplau.

Bob mis, anfonir sampl o adroddiad perfformiad ansawdd sampl misol ar gyfer eu bwrdd iechyd at arweinwyr llywodraethu a Phenaeithiaid Bydwreigiaeth er mwyn galluogi monitro a chymryd camau gweithredu priodol. Mae'r arweinwyr llywodraethu hefyd yn cael eu copïo i'r e-byst a anfonir gan y labordy yn gofyn am ail samplau felly cânt eu hysbysu am faterion ansawdd sydd angen sylw mwy uniongyrchol.


## Ffigurau a thablau

Tabl 20: Cyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cardiau	Ail samplau	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	6,036	209	3.5
Betsi Cadwaladr	6,043	274	4.5
Caerdydd a'r Fro	4,965	275	5.5
Cwm Taf	4,307	217	5.0
Hywel Dda	3,245	181	5.6
Powys	964	44	4.6
Bae Abertawe	3,557	176	4.9
Cymru	29,117	1,376	4.7

Tabl 21: Cyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi – cymhariaeth ar draws blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	1.9	1.6	3.5
Betsi Cadwaladr	2.0	2.4	4.5
Caerdydd a'r Fro	3.0	3.9	5.5
Cwm Taf	2.6	2.4	5.0
Hywel Dda	2.1	3.2	5.6
Powys	2.3	1.8	4.6
Bae Abertawe	2.9	3.9	4.9
Cymru	2.4	2.8	4.7



**Ffigur 2: Rhesymau dros ail samplau y gellir ei osgoi, canran yr holl samplau a ailadroddwyd y gofynnwyd amdanynt 2021-22 i 2023-24**

Mae 'gwael' yn cyfeirio at samplau o ansawdd gwael a achosir gan samplau nad ydynt yn cael eu dal yn unol â'r canllawiau. Mae hyn yn cynnwys samplau cywasgedig, samplau sy'n cynnwys diferion lluosog o waed yn yr un smotyng, gwaed wedi'i roi ar flaen a chefn y cerdyn yn hytrach na gadael i un diferyn amsugno drwodd.

Samplau 'annigonol' yw'r rhai nad ydynt yn cynnwys y swm gofynnol o waed.

Mae cardiau samplau a gyflwynwyd gyda rhifau GIG ar goll neu anghywir yn cael eu dosbarthu fel 'Rhif GIG'.

Mae 'arall' yn cynnwys samplau halogedig, samplau a gymerwyd yn rhy gynnar neu'n rhy hwyr a'r defnydd o gardiau sydd wedi dod i ben.

Nodyn: gellir gwrthod cerdyn sampl unigol am fwy nag un rheswm. Er enghraifft, os yw sampl o ansawdd gwael ac os yw'r rhif GIG ar goll, cofnodir yr un cerdyn sampl yn erbyn 2 reswm ar wahân yn ffigur 2.



## Cyfradd ail samplau o ansawdd gwael

### Diffiniad a safon

Ail gardiau sy'n ofynnol oherwydd smotiau gwaed o ansawdd gwael (gan gynnwys samplu annigonol).

Safon:  $\leq 1.5\%$  (yn flaenorol  $\leq 2\%$  tan fis Tachwedd 2021)

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 3.0%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 3.0% yn 2023-24, 2.1% yn 2022-23, a 1.7% yn 2021-22.

### Trosolwg daearyddol

Fel y gwelwyd hefyd yn y gyfradd ailadrodd y gellid ei hosgoi, roedd perfformiad gwael cyson yn erbyn y safon hon ym mhob mis, ac ar gyfer pob Bwrdd Iechyd.

### Sylw

Mae'r safon hon yn is-set o'r gyfradd ail ailadrodd y gellir ei hosgoi a dyma'r prif reswm dros wneud cais am ail samplau. Mae sampl o ansawdd gwael yn cael ei achosi'n bennaf gan y dechneg dal sampl, gydag ystod o wahanol faterion wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Mae hyn yn cynnwys samplau heb ddigon o waed wedi'i ddal i gwblhau'r ystod o brofion sydd wedi'u hymgorffori yn y broses sgrinio.

Mae ansawdd sampl yn rhan hanfodol o ddarparu sgrinio smotyn gwaed o ansawdd uchel. Gall samplau o ansawdd gwael olygu bod canlyniad y prawf sgrinio yn annibynadwy.

Nodyn: gall un cerdyn gael sawl rheswm dros ailadrodd. Mae'r cynnydd mawr mewn niferoedd GIG coll neu anghywir yn 2023-24 yn egluro pam mae'r rheswm dros ailadrodd o ansawdd gwael fel canran o'r holl resymau a gofnodwyd yn ymddangos yn gyfrannol is nag yn y blynyddoedd blaenorol (Ffigur 2) ond mae'r gyfradd ailadrodd o ansawdd gwael gyffredinol wedi cynyddu.

## Ffigurau a thablau

Tabl 22: Cyfradd ailadrodd o ansawdd gwael yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cardiau	Ail samplau	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	6,036	125	2.1
Betsi Cadwaladr	6,043	164	2.7
Caerdydd a'r Fro	4,965	174	3.5
Cwm Taf	4,307	119	2.8
Hywel Dda	3,245	139	4.3
Powys	964	31	3.2
Bae Abertawe	3,557	123	3.5
Cymru	29,117	875	3.0

Tabl 23: Cyfradd ailadrodd o ansawdd gwael – cymhariaeth rhwng blynyddoedd blaenorol 2021-22 a 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	1.5	1.1	2.1
Betsi Cadwaladr	1.3	1.9	2.7
Caerdydd a'r Fro	2.1	3.3	3.5
Cwm Taf	1.8	1.9	2.8
Hywel Dda	1.8	2.5	4.3
Powys	1.6	1.6	3.2
Bae Abertawe	1.7	2.6	3.5
Cymru	1.7	2.1	3.0



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

## Dilysu rhif GIG

### Diffiniad a safon

Cardiau smotyn gwaed a dderbyniwyd yn y labordy sydd â rhif GIG dilys ar gyfer y baban sydd wedi'i gofnodi.

Safon: 99% (100% yn flaenorol hyd at fis Tachwedd 2021)

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 99.3%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 99.3% yn 2023-24, 99.9% yn 2022-23, a 99.8% yn 2021-22.

### Sylw

Cyflawnwyd y safon hon ar lefel Cymru gyfan a lefel Byrddau Iechyd unigol. Roedd y perfformiad ychydig yn is o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a briodolir i dynhau'r meini prawf mewn ymateb i berfformiad eithriadol yn 2022-23.

## Ffigurau a thablau

Tabl 24: Rhif GIG ar y cerdyn yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cardiau	Rhif GIG	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	6,057	6,028	99.5
Betsi Cadwaladr	6,073	6,020	99.1
Caerdydd a'r Fro	5,002	4,962	99.2
Cwm Taf	4,322	4,287	99.2
Hywel Dda	3,278	3,254	99.3
Powys	976	968	99.2
Bae Abertawe	3,586	3,567	99.5
Cymru	29,294	29,086	99.3

Tabl 25: Rhif y GIG ar y cerdyn – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	99.8	99.9	99.5
Betsi Cadwaladr	99.8	100	99.1
Caerdydd a'r Fro	99.8	99.9	99.2
Cwm Taf	99.7	100	99.2
Hywel Dda	99.9	100	99.3
Powys	99.8	100	99.2
Bae Abertawe	99.8	100	99.5
Cymru	99.8	99.9	99.3



## Derbyn cerdyn yn brydlon yn y labordy

### Diffiniad a safon

Cardiau smotyn gwaed yn cael eu derbyn yn y labordy o fewn 3 diwrnod gwaith i gasglu sampl.

Safon: 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan: 91.4%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan: 91.4% yn 2023-24, 85.1% yn 2022-23, a 85.1% yn 2021-22.

### Sylw

Ni chyrhaeddwyd y safon hon yn ystod y cyfnod, sy'n adlewyrchu sefyllfa'r blynyddoedd blaenorol. Roedd perfformiad ar ei uchaf yn ardal Caerdydd a'r Fro. Mae hyn yn gysylltiedig â nifer y samplau sy'n cael eu gollwng ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru, lle mae'r labordy wedi'i leoli, gan y rhai sy'n cymryd samplau sy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

O fis Rhagfyr, bu gwelliant amlwg ar draws yr holl Fyrddau Iechyd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth negesydd samplau. Mae hyn yn adlewyrchu cysoni'r amserlen casglu samplau ar draws pob safle fel rhan o weithgarwch gwella parhaus sy'n gysylltiedig â'r newid hwn i'r gwasanaeth.

## Ffigurau a thablau

Tabl 26: Labordy'n derbyn y cerdyn o fewn 3 diwrnod gwaith yn 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cardiau	Derbynneb mewn pryd	Cyfradd (%)
Aneurin Bevan	6,057	5,348	88.3
Betsi Cadwaladr	6,073	5,788	95.3
Caerdydd a'r Fro	5,002	4,824	96.4
Cwm Taf	4,322	3,656	84.6
Hywel Dda	3,278	2,964	90.4
Powys	976	880	90.2
Bae Abertawe	3,586	3,325	92.7
Cymru	29,294	26,785	91.4

Tabl 27: Labordy'n derbyn cerdyn o fewn 3 diwrnod gwaith – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
Aneurin Bevan	83.7	81.6	88.3
Betsi Cadwaladr	76.0	81.2	95.3
Caerdydd a'r Fro	92.5	94.1	96.4
Cwm Taf	89.2	84.4	84.6
Hywel Dda	87.5	86.7	90.4
Powys	86.6	82.8	90.2
Bae Abertawe	84.8	85.0	92.7
Cymru	85.1	85.1	91.4

Tabl 28: Dosbarthiad diwrnod derbyn cerdyn yn y labordy ar gyfer 2023-24

<=3	4	5	6	7	8	9	10	>10	Cyfanswm
26,785	1,842	445	88	51	24	13	18	28	29,294
91.4%	6.3%	1.5%	0.3%	0.2%	0.1%	0.04%	0.1%	0.1%	



## Prosesu prydlon o samplau positif yn y labordy

### Diffiniad a safon

Anhwylterau Metabolaidd a Etifeddwyd (IMD)/ Hyperthyroidedd Cynhenid (CHT): atgyfeiriad clinigol ar gyfer canlyniadau sgrinio positif IMD/CHT wedi'u cychwyn o fewn tri diwrnod gwaith o dderbyn y sampl.

CF: atgyfeiriad clinigol ar gyfer canlyniadau sgrinio CF positif wedi'i gychwyn o fewn 25 diwrnod o dderbyn y sampl.

SCD: atgyfeiriad clinigol ar gyfer canlyniadau sgrinio SCD positif wedi'i gychwyn o fewn 42 diwrnod o dderbyn y sampl.

Safon (IMD/CHT): 100%

Safon (CF): 95%

Safon (SCD): 95%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan (IMD/CHT): 100%

Cyfradd Cymru Gyfan (CF): 100%

Cyfradd Cymru Gyfan (SCD): 100%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan (IMD/CHT): 100% yn 2023-24, 100% yn 2022-23, a 100% yn 2021-22.

Cyfraddau Cymru Gyfan (CF): 100% yn 2023-24, 100% yn 2022-23, a 100% yn 2021-22.

Cyfraddau Cymru Gyfan (SCD): 100% yn 2023-24, 100% yn 2022-23, a 100% yn 2021-22.

### Sylw

Cyflawnwyd yr holl safonau. Fel y gwelir o'r data tair blynedd, mae'r prosesau yn y labordy sgrinio smotyn gwaed wedi'u cynllunio i ymateb yn gyflym pan fo cyflwr posibl dan amheuaeth. Ar gyfer yr holl samplau positif, mae'r prawf labordy cychwynnol yn cael ei ddilyn gan brofion labordy pellach cyn i'r canlyniad sgrinio gael ei gadarnhau a'r baban gael ei atgyfeirio ar gyfer asesiad diagnostig.



## Ffigurau a thablau

Tabl 29: Prosesu samplau positif yn brydlon yn 2023-24

Cyflwr	Positif	Atgyfeiriad mewn pryd	Cyfradd (%)
IMD & CHT	41	41	100
CF	23	23	100
SCD	3	3	100

Tabl 30: Prosesu samplau positif yn brydlon – cymhariaeth ar draws y blynyddoedd blaenorol 2021-22 i 2023-24

Cyflwr	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
IMD & CHT	100	100	100
CF	100	100	100
SCD	100	100	100



## Gofal clinigol prydlon ar gyfer babanod positif

### Diffiniad a safon

IMD: presenoldeb apwyntiad clinigol cyntaf ar gyfer canlyniadau sgrinio IMD positif erbyn diwrnod 14 eu bywyd (ac eithrio HCU).

CHT: presenoldeb apwyntiad clinigol cyntaf ar gyfer canlyniadau sgrinio CHT positif erbyn diwrnod 14 eu bywyd neu ganlyniadau cychwynnol ffiniol ac yna canlyniad positif erbyn diwrnod 21.

CF: presenoldeb apwyntiad clinigol cyntaf ar gyfer canlyniadau sgrinio CF positif erbyn diwrnod 28 eu bywyd.

SCD: presenoldeb apwyntiad clinigol cyntaf ar gyfer sgrinio SCD positif erbyn diwrnod 90 eu bywyd.

Safon (IMD): 100%

Safon (CHT): 100%

Safon (CF): 95%

Safon (SCD): 90%

### Canlyniadau ar gyfer 2023-24

Cyfradd Cymru Gyfan (IMD): 100%

Cyfradd Cymru Gyfan (CHT): 93.3%

Cyfradd Cymru Gyfan (CF): 78.3%

Cyfradd Cymru Gyfan (SCD): 100%

### Tuedd tair blynedd

Cyfraddau Cymru Gyfan (IMD): 100% yn 2023-24, 100% yn 2022-23, a 100% yn 2021-22.

Cyfraddau Cymru Gyfan (CHT): 93.3% yn 2023-24, 84.6% yn 2022-23, a 94.1% yn 2021-22.

Cyfraddau Cymru Gyfan (CF): 78.3% yn 2023-24, 81.3% yn 2022-23, a 76.5% yn 2021-22.

Cyfraddau Cymru Gyfan (SCD): 100% yn 2023-24, 100% yn 2022-23, a 100% yn 2021-22.

## Sylw

Oherwydd niferoedd bach, dim ond ar lefel Cymru gyfan y mae'r wybodaeth hon ar gael. Ni chyflawnwyd y safonau ar gyfer CHT a CF ar gyfer y cyfnod hwn.

Ni chyflawnwyd y safon ar gyfer CHT ar gyfer 2 faban oherwydd bod y cardiau sampl wedi cyrraedd y labordy yn hwyr (ar ôl diwrnod 14 o fywyd).

Atgyfeiriwyd pob baban a gafodd ganlyniad sgrinio positif ar gyfer CF at Fwrdd Iechyd i gael asesiad diagnostig erbyn diwrnod 23 o fywyd. Roedd rhai Byrddau Iechyd yn cyfeirio babanod i glinig arbenigol ar gyfer eu prawf chwys diagnostig, yn hytrach na chynnal y prawf fel asesiad ar wahân. Gall amseriad y clinigau hyn olygu nad yw babanod yn cael eu gweld erbyn 28 diwrnod oed.

Mae casglu samplau o ansawdd uchel yn brydlon a phrosesau'r Bwrdd Iechyd i ymateb i atgyfeiriadau sgrinio yn effeithio ar p'un a yw babanod yn dechrau eu hasesiad clinigol o fewn amserlenni safonol.

## Ffigurau a thablau

Tabl 31: Darpariaeth brydlon o ofal clinigol ar gyfer babanod sydd wedi cael prawf sgrinio positif yn 2023-24

Cyflwr	Positif	Atgyfeiriad mewn pryd	Cyfradd (%)
IMD <sup>1</sup>	8	8	100
CHT	30	28	93.3
CF	23	18	78.3
SCD	3	3	100

<sup>1</sup> Heb gynnwys homocystinuria (HCU).

Tabl 32: Darpariaeth brydlon o ofal clinigol ar gyfer babanod sydd wedi cael prawf sgrinio positif – cymhariaeth rhwng y blynyddoedd blaenorol 2021-22 a 2023-24

Cyflwr	Cyfradd 2021-22	Cyfradd 2022-23	Cyfradd 2023-24
IMD	87.5	100	100
CHT	94.1	84.6	93.3
CF	76.5	81.3	78.3
SCD	100	100	100



# Diffiniadau

## Babanod cymwys (newydd-anedig)

- Baban sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod 5-6 ei fywyd
- Baban sy'n byw yng Nghymru ar ddiwrnod 5-6 ei fywyd ond sydd wedi'i gofrestru gyda Meddyg Teulu yn Lloegr
- Baban y mae ei breswylfa arferol y tu allan i Gymru os yw o dan ofal bydwaig arferol yng Nghymru ar ddiwrnod 5-6 ei fywyd

Nid yw babanod y cofnodwyd eu bod wedi marw cyn 5 diwrnod oed yn gymwys.

## Babanod cymwys (pob un)

- Pob baban hyd at flwydd oed sy'n byw yng Nghymru
- Baban y mae ei breswylfa y tu allan i Gymru os yw o dan ofal bydwreigiaeth arferol yng Nghymru ar yr adeg y disgwyli'r prawf smotyn gwaed newydd-anedig

Nid yw babanod y cofnodwyd eu bod wedi marw cyn 5 diwrnod oed yn gymwys.

## Canlyniad sgrinio positif / cyflwr a amheuir

Nid yw canlyniadau sgrinio 100% yn derfynol. Yn hytrach, maent yn darparu canlyniadau tybiedig. Canlyniad sgrinio positif yw canlyniad sy'n dangos bod y plentyn yn debygol o fod â'r cyflwr y mae'n cael ei sgrinio amdano. Weithiau bydd pobl yn dweud bod y plentyn yn cael ei effeithio. Yna caiff canlyniadau sgrinio positif eu cadarnhau gan ddefnyddio profion diagnostig. Er enghraifft, mae canlyniad sgrinio positif ar gyfer isthyroidedd cynhenid (CHT) yn golygu ei bod yn debygol iawn bod gan y plentyn CHT, ond rhaid cadarnhau hyn gan brofion pellach. Bydd canlyniad sgrinio positif yn cael ei adrodd fel un 'a amheuir'.

## Canlyniad sgrinio negyddol / Cyflwr heb ei amau

Nid yw canlyniadau sgrinio 100% yn derfynol. Yn hytrach, maent yn darparu canlyniadau tybiedig. Canlyniad sgrinio negyddol yw canlyniad sy'n awgrymu nad oes gan y plentyn y cyflwr y mae'n cael ei sgrinio ar ei gyfer. Weithiau bydd pobl yn dweud bod y canlyniad yn 'normal'. Er enghraifft, mae canlyniad sgrinio negyddol ar gyfer ffeibrosis systig (CF) yn golygu ei bod yn debygol iawn NAD oes gan y plentyn CF. NID yw'r canlyniad sgrinio negyddol hwn fel arfer yn cael ei gadarnhau gan



ddefnyddio profion pellach, ond rhagdybir nad yw'r plentyn yn cael ei effeithio. Bydd canlyniad sgrinio negyddol yn cael ei adrodd fel 'heb ei amau'.

## Canlyniad pendant

Canlyniad pendant yw unrhyw un o'r canlynol; ddim yn cael ei amau, yn cael ei amau, nid yn cael ei amau anhwylder neu gludydd arall. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ganlyniadau a brofwyd gan DNA ar gyfer anhwylderau clefyd y crymangelloedd. Ar gyfer babanod sy'n hŷn nag 8 wythnos oed, nid yw profi am CF hefyd yn ganlyniad terfynol.

## Isthyroidedd cynhenid (CHT)

Mae isthyroidedd cynhenid (CHT) yn gyflwr lle mae chwarren thyroid y baban yn methu â datblygu neu weithio'n iawn ac yn methu â gwneud yr hormon thyroid a elwir yn thyrocsin. Mae angen thyrocsin ar gyfer twf a datblygiad arferol. Heb thyrocsin, nid yw babanod yn tyfu'n iawn a gallant ddatblygu problemau corfforol parhaol, difrifol ac anabledau dysgu.

Gellir trin babanod â CHT yn gynnar â thabledi thyrocsin a bydd hyn yn caniatáu iddynt ddatblygu'n normal.

Mae sgrinio ar gyfer CHT yng Nghymru wedi bod yn digwydd ers 1981.

## Ffeibrosis systig (CF)

Feibrosis systig (CF) yw un o'r clefydau etifeddol mwyaf cyffredin yn y DU sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae CF yn glefyd lle mae symudiad annormal o halen a dŵr i mewn ac allan o gelloedd yn achosi i fwcws gludiog trwchus gronni. Mae hyn yn digwydd yn arbennig yn yr ysgyfaint a'r system dreulio. Mae'n bosibl na fydd babanod â CF yn magu pwysau'n dda, yn cael heintiau ar y frest yn aml ac mae disgwyliad oes cyfyngedig.

Os yw babanod â CF yn cael eu trin yn gynnar gyda deiet egni uchel, meddyginiaethau a ffisiotherapi, gallant fyw bywydau hirach ac iachach.

Mae sgrinio am CF wedi cael ei wneud yng Nghymru ers Rhagfyr 1996.



## Asidwria glwtarig math 1 (GA1)

Mae Asidwria glwtarig math 1 (GA1) yn anhwylder etifeddol prin sy'n atal blociau adeiladu penodol o brotein rhag chwalu, yn enwedig yr asidau amino lysin a thryptoffan. I bobl â GA1, gall bwyta symiau normal o brotein achosi i sylweddau niweidiol gronni yn y gwaed a'r wrin. Mewn plant â GA1, gall mân salwch, fel haint ar y frest neu anhwylder ar y bol, arwain at broblemau difrifol. Heb driniaeth, gall y plentyn fynd i goma. Er bod y rhan fwyaf o blant yn dod allan o'r coma, maent fel arfer yn cael niwed i'r ymennydd sy'n effeithio ar eu gallu i reoli eu cyhyrau a'u symudiadau. Mae hyn yn golygu efallai na fyddant yn gallu eistedd, cerdded, siarad na llyncu.

Gellir trin GA1 â deiet cyfyngedig â phrotein a charnيتين. Mae angen trefn wahanol pan fydd y plentyn yn sâl, ac efallai y bydd angen iddo fynd i'r ysbyty.

Mae sgrinio ar gyfer GA1 yng Nghymru wedi bod yn digwydd ers mis Ionawr 2015.

## Homosystinwria (HCU)

Mae Homosystinwria (HCU) yn anhwylder etifeddol prin sy'n atal bloc adeiladu protein, yr asid amino homocysteine, rhag chwalu. Mae hyn wedyn yn achosi croniad niweidiol o homocystein yn y gwaed. Heb driniaeth gynnar gall hyn arwain at broblemau iechyd hirdymor gan gynnwys anawsterau dysgu a phroblemau llygaid, osteoporosis a cheuladau gwaed neu strôc.

Gellir trin HCU â deiet â chyfyngiad protein ac atchwanegiadau a meddyginiaethau ychwanegol.

Mae sgrinio ar gyfer HCU yng Nghymru wedi bod yn digwydd ers mis Ionawr 2015.

## Asidemia isofalerig (IVA)

Mae Asidemia isofalerig (IVA) yn anhwylder etifeddol prin sy'n atal bloc adeiladu protein, y leucine asid amino, rhag chwalu. Mae hyn wedyn yn achosi croniad niweidiol o sylwedd o'r enw asid isofalerig yn y gwaed. Gall plant ag IVA fynd yn ddifrifol wael. Heb driniaeth, gall hyn arwain at goma a niwed parhaol i'r ymennydd. Mae rhai babanod ag IVA yn cael problemau o fewn ychydig ddyddiau i'w geni; bydd plant eraill yn mynd yn sâl yn ychydig fisoedd neu flynyddoedd oed, efallai yn ystod mân salwch, fel haint ar y frest neu anhwylder ar y bol.

Gellir trin IVA â deiet â chyfyngiad protein a charnيتين a glycin. Mae angen trefn wahanol pan fydd y plentyn yn sâl, ac efallai y bydd angen iddo fynd i'r ysbyty.

Mae sgrinio ar gyfer IVA yng Nghymru wedi bod yn digwydd ers mis Ionawr 2015.



## Clefyd wrin surop masarn (MSUD)

Mae Clefyd wrin surop masarn (MSUD) yn anhwylder etifeddol prin sy'n atal chwalu rhai o'r blociau adeiladu o brotein, yr asidau amino leucine, isoleucine a falin yn y gwaed. I bobl ag MSUD, gall bwyta symiau normal o brotein achosi cronid niweidiol o'r asidau amino hyn yn y gwaed. Mae llawer o fabanod ag MSUD yn mynd yn sâl pan fyddant ychydig ddyddiau oed. Heb driniaeth, mae hyn yn arwain at goma a niwed parhaol i'r ymennydd. Mewn plant hŷn gall mân salwch, fel haint ar y frest neu anhwylder ar y bol, arwain at broblemau difrifol. Fel mewn babanod, gall hyn arwain at goma oni bai ei fod yn cael ei drin yn gywir.

Gellir trin MSUD â deiet â chyfyngiad protein. Mae angen trefn wahanol pan fydd y plentyn yn sâl, ac efallai y bydd angen iddo fod yn yr ysbyty.

Enw'r cyflwr yw clefyd wrin surop masarn oherwydd gall lefelau uchel o'r asidau amino hyn achosi arogl anarferol, melyn yn yr wrin a'r chwys.

Mae sgrinio am MSUD wedi bod yn digwydd yng Nghymru ers mis Ionawr 2015.

## Diffyg didhydrogenas asyl-CoA cadwyn ganolig (MCADD)

Mae MCADD yn gyflwr etifeddol prin lle mae diffyg yn yr ensym didhydrogenas acyl-CoA cadwyn ganolig sydd ei angen i dorri i lawr rhai brasterau sydd wedi'u storio (asidau brasterog cadwyn ganolig). Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r corff dorri i lawr asidau brasterog a chynhyrchu egni, a gall achosi marwolaeth sydyn mewn babanod. Mae asidau brasterog yn gronfa ynni bwysig yn ystod cyfnodau o gymeriant calorïau gwael, cyfnodau hir rhwng prydau bwyd neu yn ystod heintiau a salwch. Yn y sefyllfaoedd hyn mae gan bobl ag MCADD lefelau uchel o asidau brasterog sydd wedi'u torri i lawr yn rhannol a chryodiadau glwcos gwaed isel a all arwain at argyfwng metabolig. Mae plant yn iach y rhan fwyaf o'r amser, ond mae haint neu gyfnod cymharol hir heb fwyd yn amharu ar eu metaboledd gan achosi coma ac weithiau marwolaeth.

Mae triniaeth yn golygu sicrhau nad yw plant yn mynd am gyfnodau hir heb fwyd a rheolaeth arbennig os ydynt yn cael haint. Gall cyfnodau o beidio â bwyta fynd yn hirach yn ddiogel wrth i'r plentyn dyfu.

Mae sgrinio am MCADD wedi bod yn digwydd yng Nghymru ers mis Mehefin 2012.

## Ffenylcetonwria

Mae ffenylcetonwria (PKU) yn gyflwr etifeddol prin sy'n atal bloc adeiladu protein, yr asid amino ffenylalanin, rhag chwalu. I bobl â PKU, gall bwyta symiau normal o brotein achosi cronid niweidiol o ffenylalanin yn y gwaed. Mae cronni ffenylalanin yn niwrowenwynig ac yn niweidiol i'r ymennydd. Heb driniaeth gall PKU achosi anabledd meddwl difrifol, diwrthdro.



Os caiff ei ganfod yn gynnar, gellir rhoi'r plentyn ar ddei't protein cyfyngedig gydag atchwanegiadau a gall yr ymennydd ddatblygu'n normal.

Mae sgrinio ar gyfer PKU yng Nghymru wedi bod yn digwydd ers 1970.

## Anhwylderau clefyd y crymangelloedd (SCD)

Mae anhwylderau clefyd y crymangelloedd (SCD) yn derm sy'n disgrifio grŵp o gyflyrau lle mae haemoglobin mewn celloedd gwaed coch yn annormal o ran strwythur. Mae hyn yn achosi i gelloedd coch y gwaed gymryd siâp fel lleuad cilgant neu gryman ffermwr wrth ddad-ocsigeneiddio. Nid yw celloedd gwaed coch y crymangelloedd mor hyblyg â chelloedd gwaed coch arferol a gallant achosi rhwystrau o fewn pibellau gwaed bach. Bydd babanod sydd â'r cyflyrau hyn angen gofal arbenigol gydol eu hoes. Gall pobl sydd â SCD gael pyliau o boen difrifol, cael heintiau difrifol sy'n bygwth bywyd ac maent fel arfer yn anemig (mae eu cyrff yn cael anhawster i gludo ocsigen). Gall babanod â SCD gael triniaeth gynnar, gan gynnwys imiwneiddiadau a gwrthfotigau, a fydd, ynghyd â chymorth gan eu rhieni, yn helpu i leihau'r siawns o salwch difrifol a chaniatáu i'r plentyn fyw bywyd iachach.

Mae sgrinio am SCD yn digwydd yng Nghymru ers 2013.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Y Tîm Cynhyrchu

Mae'r tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn i gyd yn cael eu cyflogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod.

Jude Kay	Pennaeth Rhaglen, Sgrinio Babanod
Dr Sikha De Souza	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd
Margaret Birch	Cydlynnydd Rhaglen
Dr Sharon Hillier	Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio
Guy Stevens	Rheolwr Dros Dro Gwybodeg a Gwasanaethau Data
Christie Redman	Uwch Ddadansoddwr Gwybodeg a Data
Dr Emma Richards	Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd
Yr Athro Stuart Moat	Biocemegydd Clinigol Ymgynghorol, Cyfarwyddwr Labordy Sgrinio Newydd-anedig Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

# Manylion cyswllt y rhaglen

Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Llawr 4

Rhif 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

CF10 4BZ

E-bost: [newborn-bloodspot-screening@wales.nhs.uk](mailto:newborn-bloodspot-screening@wales.nhs.uk)

Rhif Ffôn: 02920 104 427



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

Gweithio gyda'n gilydd  
i greu Cymru iachach

Working together  
for a healthier Wales